

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a
Llywodraeth Leol
Communities, Equality and Local Government
Committee

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales



Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

28 Tachwedd 2013

Annwyl Syr/Madam,

Ymgynghoriad ar y Bil Tai (Cymru)

Mae'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn cynnal ymchwiliad i egwyddorion cyffredinol y Bil Tai (Cymru).

Mae rhagor o fanylion am y Bil a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig i'w cael ar wefan y Cynulliad yn:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=8220>

Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad fel a ganlyn:

Ystyried—

1. egwyddorion cyffredinol y Bil Tai (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth yn y meysydd a ganlyn—
 - cynllun cofrestru a thrwyddedu gorfodol ar gyfer holl landlordiaid y sector rhentu preifat ynghyd ag asiantiaid gosod a rheoli;
 - diwygio'r gyfraith ddigartrefedd, gan gynnwys gosod dyletswydd gryfach ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd, a chaniatáu iddynt ddefnyddio llety addas o fewn y sector rhentu preifat;

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc / Children and Young People Committee
Ffôn / Tel: 029 2089 8032

E-bost / Email : pyyllgor.CCLI@cymru.gov.uk

- cyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle y nodwyd bod angen safleoedd o'r fath;
 - pennu safonau ar gyfer rhent, ffioedd gwasanaeth ac ansawdd llety awdurdodau lleol;
 - diwygio system Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai;
 - rhoi pŵer i awdurdodau lleol godi cyfradd uwch o dreth gyngor ar gartrefi sydd wedi bod yn wag ers dros flwyddyn;
 - y ddarpariaeth o dai gan Gymdeithasau Tai Cydweithredol;
 - gwelliannau i'r Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.
2. unrhyw rwystrau posibl rhag rhoi'r darpariaethau hyn ar waith ac a yw'r Bil yn eu hystyried,
 3. a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil,
 4. goblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol, sef yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n amcangyfrif y costau a'r buddion o roi'r Bil ar waith),
 5. priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol, sy'n cynnwys tabl sy'n rhoi crynodeb o bwerau Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth).

Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad

Mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth gan y rhai sydd â diddordeb yn y pwnc hwn. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, rhowch ddisgrifiad byr o rôl y sefydliad.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gofynnwn i sefydliadau sydd â pholisïau / cynlluniau iaith Gymraeg ddarparu ymatebion dwyieithog, yn unol â'u polisïau gwybodaeth gyhoeddus. Bydd y Pwyllgor yn ystyried yr ymatebion i'r ymchwiliad ac yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod tymor y gwanwyn.

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i: pwylgor.CCLII@cymru.gov.uk

Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Clerc y Pwyllgor

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1NA

Dylai ymatebion gyrraedd erbyn **17 Ionawr 2014**. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor wedi gofyn i'r rhai sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr atodol anfon sylwadau. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe baech yn gallu anfon copi o'r llythyr at unrhyw unigolion neu sefydliadau nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr hon, ond a hoffai gyfrannu at yr ymchwiliad o bosibl. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i roi ar wefan y Cynulliad ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

Datgelu Gwybodaeth

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Os cawn gais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth y DU, mae'n bosibl y bydd angen datgelu'r wybodaeth a gawsom gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich cyfrifoldeb chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.



Chirstine Chapman AC
Cadeirydd

Rhestr Ddosbarthu

Llywodraeth Leol

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Cymdeithas Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Cymdeithas Cyngorau Tref a Chyngorau Cymuned Mwy o Faint Gogledd Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru (SOLACE Cymru)
Fforwm Cyngor Lleol Sir Drefaldwyn
Panel Prif Swyddogion Tai Cymru Gyfan
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Parc Cenedlaethol Eryri
Penaethiaid Tai pob un o'r 22 Awdurdod Lleol
Pob un o'r 22 Awdurdod Lleol
Un Llais Cymru

Cydraddoldeb

Anabledd Cymru
Anabledd Dysgu Cymru
Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Cymru Yfory
Diverse Cymru
Mencap Cymru
Menywod yn Gwneud Gwahaniaeth
MEWN Cymru
Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru
Rhwydwaith Gwrthdodi Cymru
SCOPE Cymru
Sefydliad Bevan
Sefydliad Materion Cymreig
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru

Tai

Achredu Landlordiaid Cymru Tai Caerdydd

Adran Western Housing, Leadbitter

Agorfa Cefni

Asiantaeth Gosod a Rheoli Eiddo Cefni

Cwmnïau Cydweithredol y DU

Cymdeithas Asiantaethau Gosod Preswyl

Cymdeithas Asiantaethau Rheoli Preswyl

Cymdeithas dai x 33

Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru

Cymdeithas Landlordiaid Preswyl

Cymdeithas Tai Pwyliaid Cyf

Cymdeithas Tenantiaid a Chynghrair Iechyd Meddwl Powys

Cymdeithas Genedlaethol Landlordiaid Cymru

Cymorth Cymru

Cynghrair Ffederasiwn Adeiladu Cymru

Cyngor Benthycwyr Morgeisi

Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi

Ffederasiwn Adeiladwyr Tai

Ffederasiwn Cenedlaethol yr Adeiladwyr, Cymru

Ffederasiwn Cymdeithasau Preswylwyr Preifat

Ffederasiwn Tenantiaid Cymru

Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr, Cymru

Galluogi Tai Gwledig Newydd i Geredigion

Grŵp Monitro Ceredigion

Grŵp Seren

Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfa

Grŵp Tai Cadarn Cyf

Grŵp Tai Pennaf

Grŵp Troseddau a Niwsans Landlordiaid Cymdeithasol

Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru

HouseMark Cymru

Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig x 19

Panel Cynghori Tenantiaid

Panel Technegol Tai Cymru Gyfan / Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd yng Nghymru

Redrow Homes

Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig

Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd

Sefydliad Tai Siartredig Cymru
Sgiliau Adeiladu CITB
Tai Llanmoor
Tai Pawb
Urdd Landlordiaid Preswyl
Y Cynllun Gosod Tai Cymeradwy Cenedlaethol
Y Gwasanaeth Anghydfodau Cyf / Cynllun Blaendal Tenantiaeth
Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru
Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl dros Gymru

Y Sector Cyhoeddus

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd
Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru
Canolfan Cydweithredol Cymru
Cofrestrfa Tir
Comisiwn Dylunio Cymru
Comisiynydd Plant Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy
Gwasanaeth Cynghori ar Lesddaliadau (LEASE)
Heddlu De Cymru
Heddlu Dyfed–Powys
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Penaethiaid Cymdogaethau
Swyddfa Archwilio Cymru

Academyddion

Yr Athro Steve Wilcox

Erail

Barclays
Bellerophon
Bruton Knowles
Cwmni Masnachol Cilcennin

Cwmni Severn Trent Water Cyf
Cyfleustodau Cymru a'r Gorllewin – Nwy
Cymdeithas Adeiladu Nationwide
Cymdeithas Adeiladu Principality
Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain
Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain
Cymdeithas Prif Syrffwyr Ystadau
Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Cymdeithas y Cymdeithasau Adeiladu
Cymdeithas Ymarferwyr Cyfraith Tai
Dŵr Cymru
Dŵr Dyffryn Dyfrdwy
Fforwm Ymgynghorwyr Cynllunio Cymru
Grayling
Integra Business Services Limited
Llais Defnyddwyr Cymru/ Dyfodol Defnyddwyr
McCarthy and Stone
Melin Trelái
Nwy Prydain
Partneriaeth Cyfraith y Gymuned Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeilad
Pobl yn Gyntaf Caerffili
Rhwydwaith yr Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol
Rockwool
RWE npower
Savills, Caerdydd
Scottish Power
SSE a SWALEC
St Modwen
Sue Essex
Tai Persimmon
Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru
Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr
Western Power Distribution – Trydan
Y Sefydliad Adeiladu a Thai Cymdeithasol

Elusennau a mudiadau gwirfoddol

Abbeyfields
Achub y Plant

Adfer Ban a Chwm
Adref
Age Cymru
Byddin yr Iachawdwriaeth
Caer Las Cymru
Canolfan Cyngor ar Bopeth
Cartrefi Cymunedol Cymru
Chwarae Teg
Coed Cymru
Coleg y Therapyddion Galwedigaethol
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Consortiwm GENU5
Crisis
Cwmniau Cydweithredol CDS
Cyfeillion y Ddaear Cymru
Cyfiawnder Cymunedol Cymru
Cymdeithas Alzheimer – De Cymru BMA Cymru
Cymdeithas Alzheimer – Gogledd a Gorllewin Cymru
Cymdeithas Anabledd Sir Fynwy
Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor
Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor – De-ddwyrain Cymru
Cymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref
Cymdeithas Henoed Tsieineaidd Caerdydd
Cymdeithas MS – Cangen Sir Drefaldwyn
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys
Cymdeithas Prif Swyddogion
Cymdeithas Strôc Cymru
Cymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru (trwy CLILA)
Cymdeithas Tai YMCA Caerdydd
Cymorth Canser Macmillan
Cymorth i Fenywod
Cymunedau yn Gyntaf Wildmill
Cynghrair Grwpiau a Sefydliadau Niwrolegol Sir Drefaldwyn
Cynghrair Henoed Cymru
Cyngor ar Bopeth (CAB) Gwynedd
Cyngor ar Bopeth Cymru
Cyngor ar Ddiogelwch Trydan
Cyngor Cymru i Bobl Fyddar
Cyngor Cymru i'r Deillion

Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Cyngor Gofal Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cyswllt Amgylchedd Cymru
Cyswllt Teulu Cymru
Digartref Ynys Môn Ltd
Emmaus De Cymru
End Fuel Poverty
Ffederasiwn Busnesau Bach
Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro
Fforwm Gofal Cymru
Ffrindiau, Teuluoedd a Theithwyr
Friendly Housing Action
Galluogi Tai Gwledig
Gofal
Gofal a Thrwsio Cymru
Grŵp ME Canolbarth a Gorllewin Cymru
Hafan Cymru
Help for Heroes
Hwylusydd Tai Gwledig – Rural Housing Enabler
Llamau
Mind Cymru
Nacro Cymru
NEA Cymru
Plant yng Nghymru
Platform 51
Prosiectau Iechyd Meddwl Rhondda
Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru
Rhwydwaith Galluogi Tai Gwledig Cymru
Rhwydwaith Swyddogion Digartrefedd
RNIB Cymru
Rough Sleepers Cymru
Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall
Sefydliad Cymorth i Elusennau
Sefydliad Joseph Rowntree
Shelter Cymru
Swyddog Galluogi Tai Gwledig Canolbarth Powys
Unedig Cymru
Y Lleng Brydeinig Frenhinol

Y Rhwydwaith Digartrefedd Cenedlaethol
Y Sefydliad Byw gydag Anabledd
Y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru
Y Wallich
Ymddiriedolaeth St Giles Cymru
Ymddiriedolaeth Tai Cyfle
Ymddiriedolaeth y Gofalwyr

Sefydliadau Iechyd

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau Iechyd Gwledig a Chynhyrchion Gofal Iechyd
Atebion Iechyd Cymru
Byrddau Iechyd x 11
Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru #NAME?
Cynghorau Iechyd Cymuned x 8
Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
Pwyllgor Diogelu Iechyd Cymru
Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
Pwyllgorau Cynghorol Iechyd Cymru
Sefydliad Ymchwil Meddygaeth a Gofal Cymdeithasol, Prifysgol Bangor
Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol
Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Cysylltiadau'r gymuned teithwyr

Cwmni Celf a Diwylliant Romani
Cyngor y Sipsiwn
Fforwm Aml-asiantaeth Sipsiwn a Theithwyr Wrecsam
Fforwm Cymru Gyfan o Gydgyssylltwyr Addysg Sipsiwn–Teithwyr
Gwasanaeth Addysg i Deithwyr Cyngor Caerdydd
Llysgennad y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr, Bryn Hall, Wrecsam
Prosiect Sipsiwn a Theithwyr Caerdydd
Travelling Ahead

Prifysgolion

Canolfan Ymchwil Gwaith a Gofal Cymdeithasol ym Mhrifysgol Abertawe
Coleg Sir Gâr

Prifysgol Aberystwyth
Prifysgol Bangor
Prifysgol Caerdydd
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Prifysgol De Cymru
Prifysgol Glwyndŵr, Wreccsam